

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Bwletin Allforio Blynyddol Bwyd a Diod Cymru 2022

# Uchafbwyntiau

Cynyddodd allforion nwyddau bwyd a diod **£157 miliwn** rhwng 2021 a 2022, cynnydd o **24.5%**.

Mae'r gwerth wedi cynyddu **£258 miliwn** ers 2018.

Cynyddodd allforion i Wlad Belg **457%** ers 2018, o **£14miliwn** i **£78miliwn** a bellach mae wedi bod yn y tair gwlad uchaf o ran gwerth allforion am ddwy flynedd yn olynol.

Y categorïau allforio gwerth uchaf yn 2022 oedd Cig a Chynhyrchion Cig **(£265m)** a Pharatoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd **(£160m)**.

Aeth **75%** o werth allforion nwyddau bwyd a diod o Gymru i'r UE, o'i gymharu â **55%** ar gyfer y DU.

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru yn werth **£797 miliwn** yn 2022, y gwerth blynyddol uchaf ar gofnod gan CThEF.

Y prif gyrchfannau ar gyfer allforion oedd

- Ffrainc
- Iwerddon
- Gwlad Belg.

Allforiodd y DU werth **£25.2 biliwn** o fwyd a diod yn 2022, cynnydd o **21.6%** ers 2021.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47548, ISBN digidol 978-1-83504-212-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Dadansoddiad Categori Cynnyrch

Y tri chategori allforio mwyaf gwerthfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru yn 2022 oedd Cig a Chynhyrchion Cig (£265m), Paratoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd (£160m), a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£138m).

Y categori gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ers 2021 oedd Cig a Chynhyrchion Cig, gyda chynnydd o 42% o £187m i £265m.

Dilynir hyn gan Ddiodydd, gyda chynnydd o 40% o flwyddyn i flwyddyn, gan godi o £31m i £43m. Olew a Braster oedd â'r gostyngiad canrannol mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, gan ostwng 38% o £8m i £5m[1].

Mae cyfansoddiad cyfanswm yr allforion bwyd a diod yn amrywio rhwng Cymru a'r DU, gyda sectorau penodol yng Nghymru yn gyfran llawer mwy o gyfanswm yr allforion bwyd a diod o'i gymharu â'r DU.


Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori mwyaf ar gyfer Cymru, sef 33% o'r gwerth allforio bwyd a diod, ac yna Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd gyda chyfran o 20% o'r holl allforion bwyd a diod.

Ar gyfer y DU, Diodydd oedd y categori gyda'r gyfran uchaf, sef 37%, ac yna Cig a Pharatoadau Cig gyda 11%.

Y ddau gategori isaf ar gyfer Cymru oedd Olew a Braster ar 0.6% a Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl ar 1.4%.

Ar gyfer y DU, y ddau gategori isaf oedd Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl ar 1.3% ac Olew a Braster ar 1.9%.

**Cyfran yr Allforion Bwyd a Diod yn ôl Categori, 2022**




1. Mae'r holl gymariaethau blynyddol yn cymharu gwerthiant gwirioneddol. Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant.

# Dadansoddiad Cyrchfan

Roedd wyth o'r deg prif gyrchfan allforio bwyd a diod o Gymru o fewn yr UE, a'r ddwy wlad oedd y tu allan i'r UE oedd UDA (8fed) a Saudi Arabia (9fed).


**10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth Allforion bwyd a diod (£ miliynau), 2022.**

| Safle | Gwlad | Gwerth Allforio | % Canran o Gyfanswm Allforion Bwyd a Diod |
|---|---|---|---|
| 1 | Ffrainc | 150 | 19% |
| 2 | Iwerddon | 145 | 18% |
| 3 | Gwlad Belg | 78 | 10% |
| 4 | Yr Iseldiroedd | 52 | 7% |
| 5 | Yr Almaen | 51 | 6% |
| 6 | Sbaen | 27 | 3% |
| 7 | Yr Eidal | 26 | 3% |
| 8 | UDA | 24 | 3% |
| 9 | Saudi Arabia | 21 | 3% |
| 10 | Gwlad Pwyl | 19 | 2% |
| Cyfanswm yr Allforion Bwyd a Diod | | 797 | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

Roedd 75% o allforion bwyd a diod o Gymru gyda gwledydd o fewn yr UE, a'r ail a'r trydydd rhanbarth â'r gwerth uchaf oedd y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (9%, £70 miliwn), ac Asia ac Oceania (6%, £47 miliwn).

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru yn ôl Rhanbarth, 2022**



# Cyrchfannau allforio yn yr UE


Roedd allforion bwyd a diod Cymru i'r UE yn werth £594m yn 2022, cynnydd o £130m ers 2021. Roedd hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth allforion Bwyd a Diod Cymru.

Allforiodd y DU 55% o'i nwyddau bwyd a diod i'r UE yn 2022, gan dynnu sylw at ddibyniaeth uwch Cymru ar fasnach yr UE o'i gymharu ag allforion y DU ar gyfer bwyd a diod.

Ffrainc oedd y gyrchfan â'r gwerth uchaf ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru yn 2022, gwerth £150m, sy'n cyfrif am 19% o gyfanswm yr allforion bwyd a diod. Roedd cyrchfannau gwerth uchel eraill yr UE yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon (18%, £145m), Gwlad Belg (10%, £78m), yr Iseldiroedd (7%, £52m), a'r Almaen (6%, £51m).

Roedd y 5 uchaf hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am 60% o allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE. Mae'r cyrchfannau uchaf ar gyfer y categorïau gwerth uchaf i'w gweld yn Atodiad A, tudalen 17.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wledydd yr UE, 2022**




Y categorïau allforio uchaf eu gwerth i gyrchfannau'r UE yn 2022 oedd Cig a Chynhyrchion Cig (£225 miliwn), Paratoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd (£113m), a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£108 million).

Ar draws deg o'r un ar ddeg categori bwyd, cafodd y rhan fwyaf o'r gwerth allforio ei gaffael o gyrchfannau'r UE.

Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl oedd y categori a oedd fwyaf dibynnol ar allforion yr UE, gyda 92% o'r gwerth yn dod o wledydd yr UE.

Y categorïau lleiaf dibynnol ar yr UE oedd Cynhyrchion Bwytadwy Amrywiol a Bwyd Môr, gyda 47% a 54% o'r gwerthoedd allforio yn dod o wledydd yr UE.

**Dibyniaeth Allforion ar yr UE yn ôl Sector, 2022**




# Prif Farchnadoedd yr UE

## Ffrainc

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Ffrainc yn werth **£150m** yn 2022. Cynyddodd allforion **£50.5m** ers 2021, a chynyddodd **£77m** ers 2016. Y ffigurau hyn yw'r rhai uchaf yn yr UE yn ystod y cyfnodau dan sylw.

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori gwerth uchaf, oedd yn **£106.2m** (71% o allforion bwyd a diod i Ffrainc). Allforiodd y DU **£2.75bn** o nwyddau bwyd a diod i Ffrainc yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ffrainc, 2022 (£ miliynau)**




2. Mae Categori 3 yn cynnwys Pysgod (nid mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau dyfrol a pharatoadau ohonynt.

# Prif Farchnadoedd yr UE


## Iwerddon



Roedd allforion bwyd a diod i Iwerddon yn werth **£145m** yn 2022. Cynyddodd allforion **£32.3m** ers 2021, a **£56.4m** ers 2016. Y ffigurau hyn yw'r ail uchaf yn yr UE yn ystod y cyfnodau dan sylw.

Grawnfwydydd oedd y categori gwerth uchaf ar **£41.4m** wedi cynyddu o **£35.7m** yn 2021. Roedd allforion bwyd a diod o'r DU i Iwerddon yn werth **£4.1bn** yn 2022, y gyrchfan bwyd a diod uchaf ei gwerth i'r DU.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Iwerddon, 2022 (£ miliynau)**




# Prif Farchnadoedd yr UE

## Gwlad Belg

Roedd allforion bwyd a diod i Wlad Belg yn werth **£78m** yn 2022. Mae hyn yn gynnydd o **£22.5m** ers 2021, a **£45.5m** ers 2016. Y ffigurau hyn yw'r trydydd uchaf yn yr UE yn ystod y cyfnodau dan sylw.

Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar oedd y categori gwerth uchaf, ar **£34.8m** ac yma y gwelwyd y cynnydd uchaf ers 2021 i Wlad Belg o **£9.8m**. Roedd allforion Bwyd a Diod o'r DU i Wlad Belg yn werth **£776.4m** yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wlad Belg, 2022 (£ miliynau)**



# Prif Farchnadoedd yr UE


## Yr Iseldiroedd



Roedd allforion Bwyd a Diod i'r Iseldiroedd yn werth **£52m** yn 2022, cynnydd o **£3.5m** ers 2021, a **£19.5m** ers 2016.

Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar oedd y categori gwerth uchaf ar **£15.3m**, roedd hyn yn ostyngiad o **£16.5m** yn 2021, ond yn gynnydd o **£6.2m** ers 2016. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Iseldiroedd yn werth **£1.8bn** yn 2022[3].

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Iseldiroedd, 2022 (£ miliynau)**




3. Mae categorïau gyda £0.00 yn nodi bod gwerth yn bodoli, ond ei fod yn llai na £10,000. Mae £- yn nodi nad oes allforion o'r categori hwn.

# Prif Farchnadoedd yr UE


## Yr Almaen



Roedd allforion bwyd a diod i'r Almaen yn werth **£51m** yn 2022. Cynyddodd allforion o **£7m** ers 2021, a **£12.6m** ers 2016.

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori uchaf ar **£12.3m** i fyny o **£11.6m** yn 2021. Y categori â'r cynnydd uchaf oedd Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar, gyda chynnydd o **£5.1m**. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Almaen yn werth **£1.1bn** yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Almaen, 2022 (£ miliynau)**



# Cyrchfannau allforio y tu allan i'r UE


Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE yn werth £203m yn 2022, cynnydd mawr o £176m yn 2021. Mae hyn hefyd yn gynnydd sylweddol dros y tymor hwy, gan gynyddu £58m ers 2018.

Y cyrchfannau uchaf y tu allan i'r UE oedd UDA (£24m), Saudi Arabia (£21m), yr Emiraethau Arabaidd Unedig (£13m), Awstralia (£12m) a Thwrci (£12m). Roedd y 5 gwlad hyn yn cyfrif am 40% o'r holl allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE, a 10% o gyfanswm gwerth allforion bwyd a diod Cymru.

Y tri chategori allforio bwyd a diod uchaf eu gwerth i wledydd y tu allan i'r UE oedd Paratoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd (£47m), Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£45m), a Chig a Pharatoadau Cig (£39m).


Rhwng 2016 a 2022, allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia welodd y newid mwyaf, gan gynyddu £17m. Dilynwyd hyn gan UDA (i fyny £11m) a'r Emiraethau Arabaidd Unedig (i fyny £10m). Y cynnydd mwyaf rhwng 2021 a 2022 oedd yr Emiraethau Arabaidd Unedig (i fyny £4m), ac yna UDA (i fyny £3.7m) a Qatar (i fyny £3.3m).

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ranbarthau y Tu Allan i'r UE, 2022**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE


## UDA



Roedd allforion Bwyd a Diod i UDA yn werth **£24m** yn 2022, y gwerth mwyaf gan wlad y tu allan i'r UE.

Cynyddodd allforion **£3.7m** ers 2021, a **£11.0m** ers 2016. Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol oedd y categori gwerth uchaf, sef **£10.4m**. Roedd allforion bwyd a diod y DU i UDA yn werth **£2.5bn** yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i UDA, 2022 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE


## Saudi Arabia



Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia yn werth **£21m** yn 2022, gan gynyddu **£3.1m** ers 2021, ac **£16.8m** ers 2016.

Y categori allforio gwerth uchaf oedd Paratoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd ar **£11m**. Allforiodd y DU werth **£265.2m** o nwyddau bwyd a diod i Saudi Arabia yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Saudi Arabia, 2022 (£ miliynau)**




# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Yr Emiraethau Arabaidd Unedig

Roedd allforion i'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn werth **£13m** yn 2022, cynnydd o **£3.8m** ers 2021, a **£9.6m** ers 2016. Yr Emiraethau Arabaidd Unedig sydd â'r cynnydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer marchnad nad yw'n rhan o'r UE, rhwng 2021 a 2022.

Y categori allforio gwerth uchaf i'r Emiraethau Arabaidd Unedig oedd Paratoadau Grawnfwyd a Grawnfwydydd, gyda gwerth **£8.8m**. Allforiodd y DU werth **£445.4m** o fwyd a diod i'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Emiraethau Arabaidd Unedig (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE


## Awstralia



Roedd allforion i Awstralia yn werth **£12m** yn 2022, gan gynyddu **£2.8m** ers 2021 a **£7.3m** ers 2016.

Y categori allforio gwerth uchaf i Awstralia oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, gwerth **£6.2m**, ac yna Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar gwerth **£3.6m**. Allforiodd y DU werth **£497.5m** o fwyd a diod i Awstralia yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Awstralia, 2022 (£ miliynau)**




# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Twrci

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Dwrci yn werth **£12m** yn 2022. Roedd hyn yn gynnydd o **£1.3m** ers 2021, ac **£8m** ers 2016.

Y categori allforio uchaf ei werth i Dwrci oedd Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar, gwerth **£6.5m**. Allforiodd y DU werth **£197.6m** o fwyd a diod i Dwrci yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Dwrci, 2022 (£ miliynau)**




# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Y Swistir

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i'r Swistir yn werth **£9.5m** yn 2022, gostyngiad bach o **£0.7m** ers 2021, ond cynnydd sylweddol o **£8.6m** ers 2016.

Y categori uchaf ei werth a allforiwyd i'r Swistir oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, gwerth **£4.8m**. Allforiodd y DU werth **£153m** o fwyd a diod i'r Swistir yn 2022.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Swistir, 2022 (£ miliynau)**



# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod a Chyfanswm Allforion Cymru a'r DU (£ miliwn), 2018-2022**

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm y DU | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2018 | 539 | 17,190 | 3.1 | 22,897 | 339,506 | 6.7 | 2.4 | 5.1 |
| 2019 | 570 | 17,760 | 3.2 | 24,009 | 340,242 | 7.1 | 2.4 | 5.2 |
| 2020 | 552 | 13,535 | 4.1 | 21,743 | 290,620 | 7.5 | 2.5 | 4.7 |
| 2021 | 640 | 15,208 | 4.2 | 20,768 | 311,714 | 6.7 | 3.1 | 4.9 |
| 2022 | 797 | 20,511 | 3.9 | 25,245 | 371,473 | 6.8 | 3.2 | 5.5 |

**Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (tunnell), 2018-2022**

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm y DU | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2018 | 228,300 | 8,309,900 | 2.7 | 13,393,300 | 160,337,600 | 8.4 | 1.7 | 5.2 |
| 2019 | 271,400 | 8,663,900 | 3.1 | 15,082,600 | 154,285,300 | 9.8 | 1.8 | 5.6 |
| 2020 | 225,300 | 7,820,700 | 2.9 | 13,244,300 | 145,557,700 | 9.1 | 1.7 | 5.4 |
| 2021 | 227,500 | 7,542,800 | 3.0 | 10,728,900 | 128,623,300 | 8.3 | 2.1 | 5.9 |
| 2022 | 245,000 | 9,021,600 | 2.7 | 12,441,000 | 130,658,900 | 9.5 | 2.0 | 6.9 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth allforion bwyd a diod Cymru yn ôl grŵp gwledydd (£ miliynau)**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2022 o'i chymharu â: 2018 % newid | 2022 o'i chymharu â: 2021 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd | 395 | 431 | 414 | 464 | 594 | ↑ 50% | ↑ 28% |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 46 | 36 | 33 | 57 | 70 | ↑ 52% | ↑ 24% |
| Asia ac Oceania | 33 | 34 | 36 | 41 | 47 | ↑ 46% | ↑ 15% |
| Gogledd America | 30 | 28 | 24 | 26 | 31 | ↑ 3% | ↑ 18% |
| Gorllewin Ewrop (Nid UE)[4] | 19 | 21 | 27 | 29 | 30 | ↑ 57% | ↑ 3% |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 9 | 10 | 11 | 12 | 15 | ↑ 61% | ↑ 26% |
| Dwyrain Ewrop (Nid UE) | 6 | 9 | 6 | 9 | 9 | ↑ 38% | ↑ 0% |
| America Ladin a'r Caribî | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | ↓ 8% | ↓ 41% |
| Cyfanswm | 539 | 570 | 552 | 640 | 797 | ↑ 48% | ↑ 24% |

**Canran o allforion bwyd a diod Cymru yn ôl y grŵp gwledydd**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd | 73 | 76 | 75 | 73 | 75 |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 9 | 6 | 6 | 9 | 9 |
| Asia ac Oceania | 6 | 6 | 7 | 6 | 6 |
| Gogledd America | 6 | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Gorllewin Ewrop (Nid UE) | 3 | 4 | 5 | 4 | 4 |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Dwyrain Ewrop (Nid UE) | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| America Ladin a'r Caribî | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

4. Mae Gorllewin Ewrop (nid UE) yn cynnwys Andorra, Ynysoedd Ffaro, Gibraltar, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy, San Marino, Y Swistir, Twrci, Dinas y Fatican.

# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch (£ miliwn)**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2022 o'i chymharu â: 2018 % newid | 2021 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynhyrchion Cig | 142 | 171 | 199 | 187 | 265 | ↑ 87% | ↑ 42% |
| Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd | 82 | 60 | 51 | 139 | 160 | ↑ 95% | ↑ 16% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 110 | 133 | 107 | 106 | 138 | ↑ 25% | ↑ 30% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 78 | 77 | 74 | 75 | 85 | ↑ 9% | ↑ 14% |
| Diodydd | 26 | 32 | 20 | 31 | 43 | ↑ 69% | ↑ 40% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 32 | 29 | 32 | 28 | 37 | ↑ 14% | ↑ 33% |
| Bwyd Môr | 31 | 33 | 25 | 23 | 21 | ↓ 34% | ↓ 12% |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 12 | 10 | 11 | 19 | 18 | ↑ 54% | ↓ 6% |
| Llysiau a Ffrwythau | 16 | 18 | 17 | 14 | 14 | ↓ 13% | ↓ 1% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 9 | 7 | 12 | 11 | 12 | ↑ 35% | ↑ 9% |
| Olew a Braster | 3 | 2 | 2 | 8 | 5 | ↑ 103% | ↓ 38% |
| Cyfanswm | 539 | 570 | 552 | 640 | 797 | ↑ 48% | ↑ 24% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Canran Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul Cynnyrch**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynhyrchion Cig | 26 | 30 | 36 | 29 | 33 |
| Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd | 15 | 10 | 9 | 22 | 20 |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 20 | 23 | 19 | 17 | 17 |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 14 | 14 | 13 | 12 | 11 |
| Diodydd | 5 | 6 | 4 | 5 | 5 |
| Porthiant i Anifeiliaid | 6 | 5 | 6 | 4 | 5 |
| Bwyd Môr | 6 | 6 | 5 | 4 | 3 |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Llysiau a Ffrwythau | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Olew a Braster | - | - | - | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Pwysau Allforion Bwyd a Diod fesul Cynnyrch (tunelli)**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2022 o'i chymharu â: 2018 % newid | 2022 o'i chymharu â: 2021 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd | 43,700 | 61,300 | 34,900 | 64,400 | 68,600 | ↑ 57% | ↑ 7% |
| Cig a Chynhyrchion Cig | 43,500 | 50,300 | 67,700 | 48,100 | 46,700 | ↑ 7% | ↓ 3% |
| Diodydd | 34,600 | 42,600 | 26,800 | 31,300 | 39,400 | ↑ 14% | ↑ 26% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 35,600 | 57,600 | 35,800 | 34,900 | 34,000 | ↓ 5% | ↓ 3% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 31,000 | 20,300 | 21,800 | 17,900 | 23,400 | ↓ 25% | ↑ 31% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 14,500 | 14,000 | 12,400 | 10,100 | 9,800 | ↓ 33% | ↓ 4% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 9,900 | 6,700 | 8,200 | 7,400 | 8,000 | ↓ 20% | ↑ 8% |
| Llysiau a Ffrwythau | 6,700 | 8,300 | 8,400 | 4,700 | 6,600 | ↓ 2% | ↑ 42% |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 2,400 | 1,900 | 2,000 | 4,700 | 4,100 | ↑ 68% | ↓ 14% |
| Bwyd Môr | 5,500 | 7,700 | 6,300 | 3,000 | 3,400 | ↓ 37% | ↑ 16% |
| Olew a Braster | 900 | 700 | 900 | 1,200 | 1,200 | ↑ 35% | ↑ 4% |
| Cyfanswm | 228,300 | 271,400 | 225,300 | 227,500 | 245,000 | ↑ 7% | ↑ 8% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth allforion bwyd a diod Cymru (£ miliynau), 2018-2022**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2022 o'i chymharu â: 2018 % newid | 2021 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrainc | 78 | 84 | 72 | 100 | 150 | ↑ 92% | ↑ 50% |
| Iwerddon | 108 | 106 | 107 | 112 | 145 | ↑ 34% | ↑ 29% |
| Gwlad Belg | 14 | 18 | 21 | 56 | 78 | ↑ 457% | ↑ 39% |
| Yr Iseldiroedd | 42 | 63 | 53 | 49 | 52 | ↑ 24% | ↑ 6% |
| Yr Almaen | 42 | 42 | 51 | 44 | 51 | ↑ 21% | ↑ 16% |
| Sbaen | 33 | 37 | 25 | 21 | 27 | ↓ 18% | ↑ 29% |
| Yr Eidal | 21 | 27 | 26 | 22 | 26 | ↑ 24% | ↑ 18% |
| UDA | 18 | 20 | 20 | 20 | 24 | ↑ 33% | ↑ 20% |
| Saudi Arabia | 13 | 9 | 9 | 18 | 21 | ↑ 62% | ↑ 17% |
| Gwlad Pwyl | 11 | 10 | 16 | 17 | 19 | ↑ 73% | ↑ 12% |
| Cyfanswm | 539 | 570 | 552 | 640 | 797 | ↑ 48% | ↑ 25% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r 5 Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)**

### Cig a Chynhyrchion Cig

| | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Ffrainc** | 33 | 8,400 | 40 | 9,300 | 42 | 14,300 | 68 | 12,000 | 113 | 18,500 |
| **Iwerddon** | 24 | 8,700 | 24 | 9,600 | 21 | 10,000 | 14 | 4,200 | 36 | 8,700 |
| **Gwlad Belg** | 7 | 2,200 | 8 | 3,500 | 11 | 6,400 | 16 | 7,900 | 25 | 5,100 |
| **Yr Almaen** | 14 | 4,800 | 16 | 7,400 | 28 | 5,500 | 17 | 2,100 | 18 | 2,900 |
| **Yr Iseldiroedd** | 12 | 10,900 | 14 | 10,100 | 21 | 18,600 | 9 | 12,500 | 9 | 6,700 |

### Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd

| | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Iwerddon** | 24 | 16,600 | 24 | 14,900 | 25 | 14,100 | 36 | 14,500 | 41 | 13,700 |
| **Gwlad Belg** | - | - | - | 100 | - | 100 | 10 | 5,400 | 11 | 5,600 |
| **Saudi Arabia** | 5 | 1,800 | - | 200 | - | 200 | 8 | 2,800 | 11 | 2,500 |
| **Yr Almaen** | 1 | 300 | 1 | 200 | - | 100 | 9 | 4,600 | 11 | 5,200 |
| **Yr Eidal** | - | 200 | - | 300 | - | 100 | 10 | 2,200 | 11 | 2,400 |

### Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar

| | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Gwlad Belg** | 5 | 1,500 | 6 | 2,400 | 7 | 3,200 | 25 | 9,200 | 35 | 9,200 |
| **Iwerddon** | 25 | 10,400 | 25 | 20,300 | 24 | 10,900 | 21 | 8,700 | 28 | 7,100 |
| **Yr Iseldiroedd** | 10 | 5,300 | 23 | 12,900 | 9 | 5,700 | 16 | 8,900 | 15 | 8,200 |
| **Yr Almaen** | 11 | 3,000 | 10 | 3,500 | 7 | 2,100 | 4 | 900 | 9 | 2,000 |
| **Twrci** | 6 | 600 | 8 | 600 | 10 | 700 | 8 | 500 | 6 | 400 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r 5 Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)**

**Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol**

| | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **UDA** | 12 | 300 | 11 | 300 | 12 | 300 | 11 | 300 | 10 | 300 |
| **Yr Almaen** | 8 | 1,400 | 8 | 1,200 | 7 | 1,000 | 6 | 500 | 8 | 400 |
| **Ffrainc** | 7 | 1,700 | 7 | 1,500 | 7 | 1,500 | 5 | 1,500 | 7 | 1,600 |
| **Yr Iseldiroedd** | 5 | 1,300 | 5 | 1,300 | 4 | 700 | 6 | 1,000 | 7 | 900 |
| **Iwerddon** | 8 | 2,800 | 8 | 2,700 | 10 | 3,000 | 6 | 2,100 | 6 | 2,100 |

**Diodydd**

| | 2018 | | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Iwerddon** | 4 | 7,600 | 3 | 6,600 | 4 | 6,800 | 14 | 15,800 | 11 | 11,600 |
| **Yr Iseldiroedd** | 1 | 2,100 | 4 | 6,300 | 4 | 4,900 | 2 | 1,700 | 5 | 4,800 |
| **Gwlad Belg** | 1 | 1,400 | 1 | 2,100 | - | 400 | - | 400 | 4 | 4,200 |
| **UDA** | 2 | 2,100 | 3 | 2,500 | 2 | 1,500 | 2 | 1,400 | 3 | 1,300 |
| **Sbaen** | 3 | 3,900 | 4 | 5,300 | 2 | 3,300 | 3 | 4,100 | 3 | 4,800 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliynau), 2018-2022**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2022 o'i chymharu â: 2018 % newid | 2021 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 539 | 570 | 552 | 640 | 797 | ↑ 48% | ↑ 24% |
| Yr Alban | 5,903 | 6,279 | 5,279 | 5,920 | 7,665 | ↑ 30% | ↑ 29% |
| Gogledd Iwerddon | 1,901 | 1,897 | 1,784 | 1,812 | 2,287 | ↑ 20% | ↑ 26% |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 244 | 257 | 239 | 294 | 313 | ↑ 28% | ↑ 7% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1,846 | 1,947 | 1,956 | 1,764 | 2,206 | ↑ 19% | ↑ 25% |
| Swydd Efrog a'r Humber | 1,173 | 1,241 | 1,236 | 1,137 | 1,291 | ↑ 10% | ↑ 14% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 993 | 1,088 | 1,036 | 975 | 1,172 | ↑ 18% | ↑ 20% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 816 | 778 | 745 | 833 | 887 | ↑ 9% | ↑ 6% |
| Dwyrain Lloegr | 1,991 | 2,133 | 2,006 | 1,519 | 1,777 | ↓ 11% | ↑ 17% |
| Llundain | 2,990 | 3,016 | 2,625 | 2,454 | 2,914 | ↑ 3% | ↑ 19% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1,529 | 1,632 | 1,412 | 1,357 | 1,554 | ↑ 2% | ↑ 15% |
| De-orllewin Lloegr | 811 | 896 | 796 | 812 | 973 | ↑ 20% | ↑ 20% |
| Cyfanswm | 22,897 | 24,009 | 21,743 | 20,768 | 25,245 | ↑ 10% | ↑ 22% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau EF

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

## Perthnasedd

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) **CThEF** (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian.

Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael ei newid.

**Defnyddiwyd un ar ddeg o gategorïau SITC rev.4 (Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:**

**00** Anifeiliaid byw heblaw'r rheini yng nghategori 03

**01** Cig a pharatoadau cig (Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynhyrchion cig")

**02** Cynnyrch llaeth ac wyau adar

**03** Pysgod (nid mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt

**04** Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd

**05** Llysiau a ffrwythau

**06** Siwgr, paratoadau siwgr a mêl

**07** Coffi, te, coco, sbeis a chynnyrch ohonynt

**08** Porthiant i anifeiliaid (heb gynnwys ydau heb eu malu)

**09** Cynnyrch a pharatoadau bwytadwy amrywiol

**11** Diodydd

**41** Olew a braster o anifeiliaid

**42** Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu eu ffracsiynu (Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster")

**DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.**

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategorïau cynnyrch, gan i gategorïau 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynhyrchion cig*, ac i gategorïau 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster.*

Cafodd "Storfeydd a Darpariadau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEF ar lefel genedlaethol (www. uktradeinfo.com).

## Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEF.
Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU.

Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEF yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.

Os oes gan fusnes ganghennau mewn mwy nag un rhanbarth, mae masnach y busnes hwnnw'n cael ei dyrannu i bob rhanbarth yn seiliedig ar **ba gyfran o'i weithlu sydd yn y rhanbarth hwnnw**, waeth beth sy'n cael ei allforio.

Mae Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol yn cynnwys cymysgedd o is-gategorïau gan gynnwys Marjarîn a chynnwys Breuo, a pharatoadau bwyd bwytadwy amrywiol fel paratoadau ffrwythau wedi'u coginio, paratoadau bwyd cyfansawdd, paratoadau saws amrywiol, a pharatoadau bwyd at ddefnydd babanod.

Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r categori yn: **SITC Revision 4**.
www.unstats.un.org/unsd/publication/SeriesM/SeriesM_34rev4E.pdf